# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ1303(FM) a gyhoeddwyd gan Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar 12 Mawrth 2006

**At Kirsty Williams:**

Mae'r Prif Weinidog wedi gofyn imi ymateb i'ch cwestiwn atodol i OAQ1303(FM) ar ddydd Mawrth 7 Mawrth ynghylch perfformiad Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ac amseriad y datganiad ystadegol chwarterol diweddaraf.

Mae'r dyddiadau cyhoeddi ar gyfer rhyddhau ystadegau perfformiad chwarterol ar gyfer y gwasanaeth ambiwlans brys yn cael eu penderfynu ymlaen llaw gan Gyfarwyddiaeth Ystadegol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rhoddwyd rhybudd ymlaen llaw ynghylch 1 Mawrth fel y dyddiad cyhoeddi yn y cyhoeddiad ar gyfer y chwarter blaenorol, a gyhoeddwyd ar 30 Tachwedd 2005. Nid oes unrhyw fewnbwn gan Weinidogion neu gynghorwyr ar ddyddiad cyhoeddi'r datganiadau ystadegol.

Rwyf eisiau gweld y gwasanaeth ambiwlans gorau posibl i bobl Cymru ac mae'n amlwg bod angen i'r gwasanaeth wella o'r hyn sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd. Mae camau'n cael eu cymryd i wneud i hyn ddigwydd, gan gynnwys mynd i'r afael ag anawsterau staffio yn Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru.

Yr wythnos diwethaf, gwnaeth yr Ymddiriedolaeth dau benodiad i swyddi uwch i gryfhau ei thîm rheoli. Cafodd Roger Thayne, Prif Weithredwr Gwasanaeth Ambiwlans Swydd Stafford, ei benodi fel Prif Weithredwr interim, ar sail ran-amser, i gymryd lle'r Prif Weithredwr presennol sydd yn absennol oherwydd salwch tymor hir. Mae dirprwy Mr Thayne, Dr Anton Van Dellen, yn ei gynorthwyo, gan gymryd y cyfrifoldeb o fod yn Gyfarwyddwr Gweithrediadau, swydd a ddaeth yn wag yn dilyn ymddeoliad deiliad blaenorol y swydd. Mae penodiad Dr Van Dellen hefyd ar sail ran-amser.

Mae Roger Thayne wedi bod yn Brif Weithredwr Gwasanaeth Ambiwlans Swydd Stafford er 1992 ac o dan ei gyfarwyddyd mae'n gyson wedi bod yn un o'r ymddiriedolaethau ambiwlans sy'n perfformio orau yn Lloegr. Rwy'n siŵr y bydd ei benodiad yn cael ei groesawu gan Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru a chymuned ehangach y GIG yng Nghymru.